Senedd Cymru

# Rheolau'r Grwpiau Trawsbleidiol: Crynodeb

Ebrill 2023

Mae Grwpiau Trawsbleidiol yn grwpiau o Aelodau o'r Senedd (ASau) a rhanddeiliaid â diddordeb sy’n cael eu ffurfio i ystyried a thrafod diddordebau a rennir ar bynciau penodol. Nid ydynt yn cael eu sefydlu gan y Senedd ei hun, nac yn cael eu llywodraethu gan ei Reolau Sefydlog, ac nid ydynt yn rhan swyddogol o fusnes y Senedd.. Mae'r Senedd yn chwarae rôl wrth gydnabod a chofrestru Grwpiau Trawsbleidiol sy'n caniatáu mynediad at adnoddau penodol yn y Senedd. Er mwyn cofrestru a chynnal y statws hwn, mae grwpiau yn ddarostyngedig i'r 'Rheolau ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol'.

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn ganllaw cyflym i'r rheolau, ond dylech hefyd gyfeirio at y rheolau llawn a sicrhau eich bod yn cydymffurfio â nhw:

## Mae angen y canlynol er mwyn sefydlu Grŵp Trawsbleidiol:

- AS fel Cadeirydd;
- cynrychiolwyr AS o dair plaid wahanol;
- cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol lle byddwch yn ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Grŵp; a
- cwblhau'r gwaith papur a'i ddychwelyd i swyddogion. Rhaid i hyn gynnwys rhestr o holl aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol.

## Wrth gynnal cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol mae'n rhaid i chi:

- gyflwyno hysbysiad o'r cyfarfod/agenda i swyddog dirprwyedig y Senedd cyn y cyfarfod;
- cynhyrchu cofnodion pob cyfarfod o fewn pedair wythnos i'r cyfarfod a'u darparu i swyddog dirprwyedig y Senedd; a
- sicrhau bod o leiaf un AS yn bresennol ym mhob cyfarfod.

## Rhaid i Grwpiau Trawsbleidiol:

- gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol bob deuddeg mis;
- ffeilio adroddiad blynyddol a ffurflen ariannol o fewn 6 wythnos i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol; a

- sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau ynghylch cofrestru buddiannau a lobïo.

Mae gwybodaeth am gydymffurfiaeth Grwpiau Trawsbleidiol â'r rheolau hyn yn cael ei chasglu'n flynyddol a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Safonau. Gallai methiant i gydymffurfio ag unrhyw agwedd ar y rheolau hyn arwain yn y pen draw at ddadgofrestru'r Grŵp.

Gallai methiant i gydymffurfio â'r rheolau hefyd arwain at gŵyn am y Cadeirydd yn cael ei gwneud i'r Comisiynydd Safonau.